## Ydych chi eisiau gwneud eich cymuned yn fwy gwydn

## Oes gennych ddiddordeb mewn helpu pobl yn eich cymuned i leihau eu costau ynni?

## Ydych chi eisiau datblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau rhoi cyngor ar ynni?



# A ALLECH CHI FOD YN HYRWYDDWR YNNI LLEOL

NATIONAL ENERGY ACTION CYMRU
NEA
ACTION FOR WARM HOMES

Warm Together Cymru (Welsh) v3.indd 1 28/07/2025 12:30:48

# CYNNES GYDA'N GILYDD CYMRU

Mae **Cynnes Gyda'n Gilydd Cymru** yn brosiect tair blynedd gan National Energy Action (NEA), sydd wedi'i ddylunio'n benodol i helpu aelwydydd a chymunedau ar draws Cymru.

Byddwch yn dechrau trwy ddatblygu eich gwybodaeth rhoi cyngor ar ynni trwy weithdy ar-lein. Bydd hwn yn cynnwys awgrymiadau arbed ynni, hawliau tanwydd, sut i helpu aelwydydd agored i niwed ac incwm isel a darlun ehangach o dlodi tanwydd yng Nghymru, gan gynnwys y rhwydwaith o wasanaethau cymorth a chyngor ynni sydd ar gael.

Yna, byddwch yn datblygu eich sgiliau wrth roi cyngor ar ynni drwy weithio ochr yn ochr ag NEA mewn digwyddiadau cyhoeddus yn eich cymuned leol.

Byddwch yn cael rhagor o gefnogaeth barhaus, adnoddau a mynediad at gyfleoedd hyfforddi pellach drwy NEA.

**Am bwy ydyn ni'n chwilio?**
Rydyn ni'n chwilio am rywun sy'n uchel ei gymhelliant ac sydd â chysylltiadau cryfion o fewn eu cymuned. Efallai eich bod yn awyddus i gefnogi teulu, ffrindiau a chymdogion, neu eisoes yn gweithio i sefydliad sy'n eiriol dros ynni a chynaladwyedd, ac eisiau datblygu.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
*energychampions@nea.org.uk*

## Noder mai cyfle gwirfoddol di-dâl yw hwn.



**www.nea.org.uk**

Elusen annibynnol yw National Energy Action, Rhif Cofrestru 290511.